

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 21 Gorffennaf 2026

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwilym O. Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Siân Enfys Jones, W. Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc / SAC

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** t – datganiadau o fuddiant personol:
Cyng. Gwilym O. Jones 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog.
3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 16 Mehefin 2026 fel rhai cywir. (cynnig Cyng. S. E. Jones, eilio. Cyng. W.V. Owen).
4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**
 - 4.1 Cae Chwarae: Trafodwyd Adroddiad Rospa yn fanwl – Nodwyd y canlynol:
Swing plant iau – rywfaint o gynyddiad ar y gadwyn a'r sedd – risg isel
Postyn basged angen arwyddion – risg isel.
Bylchau yn y teils – risg isel.
Tŷ chwarae pren – yn adeilad ansafonol – risg isel.
Marciau strimer ar byst y siglen basged - risg isel.
Baw adar ar y ceffyl siglo – risg ganolig
Byddai'r clerc yn gofyn i G.L. Jones Playgrounds atgyweirio'r offer os nad yw Cyngor Tref Caergybi ar gael i wneud hynny.
 - 4.2 Neuadd y Pentref:- Roedd y cais am Grant Balchder yn Eich Cymuned wedi'i gyflwyno:
Gosod 12 ffenestr wydr dwbl newydd a gwaith adnewyddu cysylltiedig
Gwaith atgyweirio, paentio ac addurno ar ôl eu gosod.
Cyfanswm gwerth y grant £13,208.88.
Roedd S Wharton wedi cwblhau'r gwaith o gael gwared a'r tyfiant o amgylch yr adeilad ac wedi defnyddio lladd chwyn i'r dreif.
Roedd y cwmni PAT Testing wedi cynnal arolygiadau a phroffion diogelwch trydanol ar yr offer symudol.
Roedd BLB Plumbing and Heating yn dod ddydd lau 23 Gorffennaf i gau'r bibell gysylltu dŵr o'r Tŷ Capel, a Môn Fire yn dod i wneud archwiliad blynyddol ar 7 Awst 2026.

Cytuno i gynnal 'sesiwn galw heibio' yn y neuadd ar 18 Awst 2026
 - 4.3 Goleuadau Stryd - Ffordd Minffordd – Roedd nifer y cerddwyr yn ol a blaen i'r A55 wedi gostwng ers i'r llwybr bysiau newid a byddai'n rhaid gwneud penderfyniad a allai'r Cyngor Cymuned gyfiawnhau cael benthyciad i brynu lampau stryd a'l peidio. Yn y cyfamser byddai'r clerc yn gofyn i GSYM archwilio'r wal ffin gan fod cerrig l'w gweld ar y palmant o hyd.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

5. **Cynllunio** - dim

6. **Materion Ariannol**

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.6. 2026 i 30.6.2026 ynghyd â chysoni banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif Cyfredol £24626.90, Cyfrif Adnau £4177.27.

6.1 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

Torri Glaswellt	200	Scottish Power	124.71
Cynnal a chadw (neuadd a meinciau)	467	Nwy Prydain	96.67
Arolygiad chwarterol aofer chwarae	54.8	Rospa Playsafety Ltd	123.6
Clerc	364.39	Archwiliad Mewnol	200
Earth Connections	110		0

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

7. **Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Pwyllgor Ardal Ynys Môn 28.7.2026

7.2 Un Llais Cymru - Nodiadau Datblygu Ymarfer

7.3 Ymchwil DBCC

7.4 Is-etholiad Dyffryn Llynnoedd

8. **Adroddiad Blynnyddol** – byddai'r clerch yn paratoi drafft terfynol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

9 **Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cynghorydd Dyfed Williams

Roedd popeth yn iawn yn Ysgol y Tywyn, nodwyd fod Mr Williams y Pennaeth wedi gadael yr ysgol a byddai Mrs Clegg yn ymgymryd â'r swydd am y tro.

9.2 Cynghorydd Gareth Thomas

Roedd rhywfaint o dipio anghyfreithlon wedi bod ar Lôn Tŷ Main a hefyd gyferbyn ag Ysgol Caergeiliog.

10. **Cyfarfod Nesaf - 15 Medi 2026**

: